

Asesiad Digonolrwydd Chwarae Torfaen 2025

Crynodeb Gweithredol



Sefyllfa Chwarae yn Nhorfaen

Yn 2010, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i gyflwyno dyletswydd gyfreithiol i awdurdodau lleol asesu a chefnogi cyfleoedd chwarae plant. Roedd hyn yn rhan o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Cyflwynwyd y ddyletswydd mewn dau gam: o fis Tachwedd 2012 ymlaen, roedd rhaid i gynghorau asesu'r cyfleoedd chwarae yn eu hardaloedd, ac erbyn Gorffennaf 2014, roedd yn ofynnol iddynt, lle bo'n rhesymol bosibl, sicrhau bod digon o gyfleoedd i blant chwarae.

Mae'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae yn broses gydweithredol gyda'r nod o werthuso a gwella cyfleoedd chwarae plant. Mae'n archwilio themâu allweddol fel chwarae cynhwysol i blant ag anghenion amrywiol, rhwystrau fel cost, a hygyrchedd parciau a mannau agored. Mae'r asesiad hefyd yn ystyried sut mae plant yn teithio i ardaloedd chwarae, yn adolygu gwasanaethau chwarae dan oruchwyliaeth a hamdden, ac mae'n archwilio datblygiad y gweithlu ar gyfer gweithwyr chwarae. Yn ogystal, mae'n edrych ar sut mae polisïau, ymgysylltiad, eiriolaeth a rhannu gwybodaeth yn cefnogi hawl plant i chwarae.



1. Addewid Torfaen ar gyfer Chwarae

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a'i bartneriaid yn parhau i fod yn ymroddedig i ehangu, datblygu a chynnal cyfleoedd chwarae o ansawdd uchel, gan sicrhau bod anghenion chwarae pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu deall a'u cefnogi'n llawn. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae'n rhydd ac yn ddiogel yn eu cymunedau.

Mae ffocws cryf yn cael ei roi ar fynd i'r afael ag ystod eang o faterion sy'n gysylltiedig â chwarae, ac mae mesurau rhagweithiol wedi'u cyflwyno i leihau rhwystrau i chwarae. Mae profiadau chwarae cadarnhaol, rheolaidd yn hanfodol ar gyfer datblygiad iach a lles plant a phobl ifanc. Rydym yn credu'n gryf bod chwarae'n cynnig manteision sylweddol i ieuchyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc, yn ogystal â'u lles cyffredinol. Mae Cyngor Torfaen a'i bartneriaid wedi ymrwymo i ddiogelu hawl pob plentyn i chwarae ym mhob agwedd ar eu bywydau.

2. Methodoleg

2.1 Amserlen a Phroses Gweithgareddau a Digwyddiadau

Gan adeiladu ar lwyddiant asesiadau blaenorol, dilynodd Cyngor Torfaen fethodoleg debyg, gan weithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid i gasglu data perthnasol a mynd i'r afael â materion sy'n dod i'r amlwg. Cydlynodd swyddog arweiniol o'r Gwasanaeth Chwarae'r broses, gan oruchwylio casglu data, cyfarfodydd, gweithdai ac ymgynghoriadau i sicrhau dull trylwyr a chydweithredol.

- Ym mis Awst 2024 fe ddechreuon ni ein rownd gyntaf o ymgynghori gyda phlant hyd at 12 oed.
- Ym mis Medi 2024 fe lansion ni'r ymgynghoriad pobl ifanc, chwarae a'r gweithlu hamdden a'r cyhoedd cyffredinol.
- Ym mis Tachwedd 2024 cynhaliwyd Cynhadledd Blaenoriaeth Chwarae. Roedd y digwyddiad yn hynod lwyddiannus ac yn ein galluogi i ddangos pwysigrwydd chwarae i weithwyr proffesiynol a phartneriaid. Roedd y rheiny a fynychodd y gynhadledd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r meysydd allweddol o fewn yr asesiad yn ogystal ag Aelodau Etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned a Llywodraeth Leol. Defnyddion ni'r gynhadledd i dynnu sylw at rai o'r themâu cyfredol sy'n gysylltiedig â chwarae yn ogystal â dangos rhai o'r modelau o arfer da o Gynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae Torfaen.
- Ym mis Ionawr 2025 cynhaliwyd cymhorthfa ar gyfer aelodau etholedig, cynghorwyr Tref a Chymuned, i drafod canfyddiadau'r ymgynghoriad.

Er mwyn sicrhau Asesiad Digonolrwydd Chwarae cynhwysfawr a chynhwysol, nododd Cyngor Torfaen amrywiaeth eang o bartneriaid mewn gwahanol sectorau. Helpodd ymarfer mapio i benderfynu pa swyddogion a gwasanaethau yr oedd angen ymgynghori a nhw, gan sicrhau mewnbyn cyfredol a pherthnasol.

Cafodd yr asesiad ei ymgorffori mewn cyfarfodydd allweddol i gasglu adborth eang, tra defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol a sesiynau briffio i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a chadw rhanddeiliaid yn wybodus trwy gydol y broses.

2.2 Cyfranogiad Partneriaid yn Niweddaru'r Asesiad

Cynhwyswyd amrywiaeth eang o wasanaethau a phartneriaid yn y broses asesu.

Swyddog Poblogaeth a Data	Swyddog Polisi Chwarae	Bwrdd Iechyd Lleol	ACT Training	Rheolwr Gweithrediadau'r Amgylchedd
Swyddog Cyfranogiad	Rheolwr Gwasanaeth Chwarae	Gwasanaeth Ieuenctid	Clybiau Plant Cymru	Swyddog Diogelwch ar y Ffyrdd
Rheolwr TOGs	Blaengynllunio	Teuluoedd yn Gyntaf	Grŵp Strategaeth Ieuenctid Blaenafon	Swyddog Cyfranogiad ac Ymchwil
Rheolwr Cynllunio a Chomisiynu	Bron Afon	Swyddogion GIS	Cylch Chwarae Little Red Berries	Swyddog Ymgysylltiad a Chyfranogiad Plant a Phobl Ifanc
Tîm Nyrso Cymunedol	Swyddog Helpu Teuluoedd sy'n Gweithio	Sgowtiaid Torfaen	Rheolwr Grŵp Lles Cymunedol	Pennaeth Hamdden (Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen)
Chwaraeon Anabled	Cartrefi Melin	Gwasanaeth Gwybodaeth Deuluoedd	Traffig a Thrafnidiaeth	Swyddog Datblygu'r Trydydd Sector
Rheolwr Gofal Plant	Swyddog Busnes Gofal Plant	Swyddog Trafnidiaeth	Dadansoddwr Geo-ofodol	Swyddog Cyswllt Teuluol
Tîm Plant ag Anableddau	Rheolwr Blynnyddoedd Cynnar	Urdd Gobaith Cymru	Pennaeth ADY, Cynhwysiant a Lles	Pobl Ifanc
Swyddog Teithio Llesol	Gweithiwr Cymorth Cymunedol	Rheolwr Dechrau'n Deg	Gofal Cymdeithasol – rheolwr tîm	Crëwr cynnwys a hyrwyddwr datblygu cymunedol
Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen	Brownis a Geidiaid Torfaen	Arweinydd Tîm Capasiti Cymunedol	Rheolwr ADY	Swyddog Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy
Menter Iaith	Tîm Datblygu Chwarae	Tîm Diogelwch Cymunedol	Rheolwr Clwb Ieuenctid ac Allgymorth	Eglwys Dwy Loc
Rheolwr Cyflenwi Cyn-16 Inspire	Llyfrgelloedd	Swyddogion Iechyd a Diogelwch	Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid	Gweithlu Chwarae a Hamdden
Swyddog Gofalwyr Ifanc	Datblygiad Chwaraeon	Rheolwr Partneriaethau a Pholisi	Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Tirwedd a Hamdden	Cynghrair Gwirfoddol Torfaen
Neuaddau Cymunedol	Cynghorau Tref a Chymuned	Swyddog Cydweithredu a Gwelliannau Rhanbarthol	Swyddog Cyfathrebu (Digidol)	Uwch Swyddog Datblygu Chwaraeon
Pennaeth Adnoddau a Chynllunio	Gweithwyr Datblygu Chwarae	Aelodau Etholedig	Canolfan Plant a Phobl Ifanc Cwmbrân	Rhieni / gofalwyr
Swyddog Awtistiaeth	Canolfan Plant a Phobl Ifanc Cwmbrân	Gweithwyr Ieuenctid	Cydlynnydd Prosiectau Amgylcheddol Strategol	Plant
Grwpiau Cyfeillion Parciau	Swyddog Cymorth Cydnerthedd Cymunedol	Swyddog Ysgolion Iach	Cydlynnydd Brysbennu NEET	Ysgolion
Fferm Ysgubor Oer	Cymunedau yn Gyntaf	Swyddog Cynhwysiant	Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i Blant a Phobl Ifanc Byddar	Swyddog Gofalwyr Ifanc
Gweithwyr Chwarae a Gwella	Cynghorau Tref a Chymuned	Swyddogion GIS	Swyddog Cymorth Cydnerthedd Cymunedol	Swyddog Datblygu Dyfodol Cadarnhaol

2.3 Cytundeb ar Ganfyddiadau Digonolrwydd Chwarae a Chynllun Gweithredu

Trafodwyd prif ganfyddiadau'r asesiad llawn a'r cynllun gweithredu arfaethedig wedyn drwy'r prosesau canlynol: -

- Grŵp Cynllunio Gweithredu Digonolrwydd Chwarae
- Briffio Craffu Aelodau Gweithredol



3. Sut y Llywiodd Ymgynghoriad ac Ymgysylltiad yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae a'r Cynllun Gweithredu

Canfyddiadau'r Ymgynghoriad

Mae gan ymgynghoriad rôl bwysig o fewn y broses asesu. Mae dros 90 o bartneriaid wedi bod yn rhan o'r asesiad o amrywiaeth eang o wasanaethau a meysydd awdurdod lleol a'r trydydd sector.

Cwblhawyd yr arolwg Chwarae a Hamdden gan gyfanswm o **2,328** o unigolion. Casglwyd ymatebion o bob rhan o Dorfaen, gan gynrychioli ystod eang o leisiau, gan gynnwys plant, pobl ifanc, teuluoedd, grwpiau cymunedol, a phobl broffesiynol sy'n gweithio mewn lleoliadau chwarae a hamdden. Sicrhodd y mewnbwn amrywiol hwn fod yr ymgynghoriad yn rhoi ciplun cywir a chynhwysfawr o safbwyntiau'r gymuned.

Ymgynghoriad Plant (Dan 12 oed)	1196
Ymgynghoriad Pobl Ifanc (12-25 oed)	432
Ymgynghoriad Cyhoeddus	628
Gweithlu Chwarae a Hamdden	102



3.1 Crynodeb o Ganfyddiadau Allweddol o'r Ymgynghoriad Plant a'r Camau a Gymerwyd Ymlaen (1196 o ymatebion)

Defnyddiodd yr ymgynghoriad plant gwestiynau wedi'u haddasu o 'Arolwg Bodlonrwydd Mawr' Chwarae Cymru, gydag eitemau ychwanegol wedi'u haddasu ar gyfer gyd-destun Torfaen.

Fe'i cynhaliwyd trwy arolwg papur (376 o ymatebion) a ddosbarthwyd ar draws darpariaethau chwarae wedi'u staffio ac arolwg SNAP ar-lein (820 o ymatebion) a hyrwyddwyd trwy bob ysgol gynradd, gan gasglu cyfanswm o 1,196 o ymatebion rhwng Awst a Rhagfyr 2024.

Datgelodd yr ymgynghoriad nifer o fewnwelediadau allweddol i brofiadau a dewisiadau chwarae plant. Yn arbennig, am y tro cyntaf, dywedodd mwy o blant eu bod yn chwarae gartref (40%) nag mewn mannau awyr agored fel parciau a chaeau (38%) gan dynnu sylw at ostyngiad canfyddedig mewn chwarae awyr agored ers 2022. Mewn ymateb, mae'r awdurdod lleol yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyrwyddo chwarae awyr agored trwy ddatblygu mannau cymunedol hygyrch a pharhau â chynlluniau fel ymgyrch "Pick it Up" ac "Os Nad yw'n Bell, Mae'r Car yn Well" i gefnogi amgylcheddau glanach, mwy diogel a theithio llesol. Bydd sesiynau chwarae dros dro mewn parciau hefyd yn cael eu hehangu i annog ymgysylltiad yn yr awyr agored.
Gwelwyd newid sylweddol yng ngweithgareddau chwarae a ffefrir gan blant, gyda chwaraeon a gemau tîm bellach yn uwch na dyfeisiau electronig, gwrthdro o 2019. I gefnogi hyn, bydd staff chwarae yn derbyn hyfforddiant parhaus mewn gemau tîm a'r cwrwllwm gwaith chwarae, tra bydd rhieni'n cael cynnig arweiniad ar chwarae rhydd. Mae llawer o blant eisoes yn mynd i ddarpariaethau chwarae am ddim yr awdurdod lleol, a fydd yn parhau i weithredu yn ystod y tymor a gwyliau. Gan gydnabod y galw am gyfleoedd chwarae penwythnos, mae sesiynau dros dro fore Sadwrn wedi'u cyflwyno a bydd y rhain yn symud o gwmpas lleoliadau cymunedol fel ysgolion bob tymor i sicrhau mynediad i'r fwrdeistref gyfan
Mynegodd plant hefyd awydd am barciau gwell a mannau chwarae glanach, gan ysgogi buddsoddiad parhaus mewn cynnal a chadw parciau ac ymgyrchoedd lleihau sbwriel. Mae adborth cadarnhaol ar amseroedd chwarae ysgol wedi cynyddu ers ymgynghoriadau blaenorol, gan arwain at gefnogaeth barhaus i ysgolion i integreiddio chwarae yn y diwrnod ysgol a thu hwnt, gan gynnwys hyfforddiant staff ysgol a phrosiectau gwella chwarae. Gyda llawer o blant yn defnyddio beiciau a sgwteri, bydd cynlluniau teithio llesol fel Scoot FIT, cynnal a chadw beiciau, a Kerbcraft yn cael eu cynnal a'u hyrwyddo.
Wrth ymateb i geisiadau am deganau i chwarae gyda nhw gartref, mae'r Llyfrgell Deganau wedi cael ei hail-lansio. Yn olaf, dywedodd 81% o blant fod ganddynt weithwyr chwarae yn eu hysgolion a'u disgrifio fel modelau rôl cadarnhaol. Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i weithio gydag ysgolion i gyflawni prosiectau chwarae a buddsoddi mewn datblygiad proffesiynol ar gyfer y gweithlu chwarae.

3.2 Crynodeb o Ganfyddiadau Allweddol Ymgynghoriad Pobl Ifanc rhwng 12 a 25 oed a'r Camau a Gymerwyd ymlaen (432 o ymatebion).

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad trwy arolwg ar-lein a gynhaliwyd ar blatfform Dweud Eich Dweud y cyngor, gyda fersiynau electronig a phapur ar gael i sicrhau hygyrchedd. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng Hydref 4ydd, 2024, a Rhagfyr 20fed, 2024.

Dosbarthwyd yr arolwg trwy e-bost at ysgolion uwchradd, colegau lleol, a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn lleoliadau chwarae a hamdden. Yn ogystal, hyrwyddwyd yr arolwg yn eang ar draws pob platfform cyfryngau cymdeithasol.

Tynnodd yr ymgynghoriad sylw at y ffaith bod 61% yn treulio amser yn rheolaidd yn eu cymunedau, yn enwedig mewn parciau a siopau ger siopau. Mewn ymateb, bydd darparwyr ieuenctid yn parhau i gynnig gwaith ieuenctid allgymorth a datgysylltiedig yn yr ardaloedd hyn, tra bod yr awdurdod lleol yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y mannau hyn yn parhau i fod yn ddiogel ac yn hygyrch. Mae llawer o bobl ifanc hefyd yn ymgysylltu â chlybiau a chyfleusterau chwaraeon lleol, gan ysgogi cefnogaeth barhaus gan y tîm datblygu chwaraeon a phartneriaid trydydd sector i gynnal amrywiaeth eang o gyfleoedd chwaraeon.

Pryder cyffredin oedd y diffyg cyfleusterau addas i blant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau, gan fod llawer o barciau yn cael eu hystyried fel mannau sydd wedi'u hanelu at blant iau. Mae'r adborth hwn wedi'i rannu â rhanddeiliaid, gyda datblygiadau cynhwysol fel campfa awyr agored newydd ym Mhentre Uchaf, gwell mynediad ym Mharc Blodau Blaenafon, ac ardaloedd aml-ddefnydd newydd ym Mhont-y-pŵl a Chwmbrân i gyd wedi'u hanelu at blant hŷn a phobl ifanc.

Mynegodd pobl ifanc hefyd awydd am fannau dan do diogel sy'n cynnig gweithgareddau fel gemau a chodio a thueddiadau ar-lein. Mewn ymateb, mae dau glwb ieuenctid newydd a darpariaeth allgymorth yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r gwasanaeth ieuenctid a mudiad ieuenctid lleol a fydd yn darparu cyfleoedd newydd i bobl ifanc. Yn ogystal, cydnabuwyd yr angen am gymorth ieuchyd meddwl a chyfleoedd adeiladu hyder, gyda darparwyr ieuenctid yn parhau i hyfforddi staff a darparu cymorth wedi'i dargedu i bobl ifanc sy'n wynebu'r heriau hyn.



3.3 Crynodeb o Ganfyddiadau Allweddol gan Rieni/Gofalwyr a Theuluoedd am Wasanaeth Chwarae'r Awdurdodau a'r ymateb/camau a gymerwyd (628 o ymatebion).

Lansiwyd arolwg ar-lein trwy'r platfform "Dweud Eich Dweud" a rhoddodd ffocws ar gyfleoedd chwarae, hamdden a difyrrwch i blant a phobl ifanc o bob oedran. Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo'n eang ar draws gwahanol sianeli cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd cymaint o bobl â phosibl.

Yn ogystal â hyn, fe wnaethom ymgysylltu'n weithredol â rhieni, gofalwyr a theuluoedd sy'n defnyddio darpariaethau chwarae yn Nhorfaen, gan eu hannog i rannu eu mewnwelediadau gwerthfawr.

Tynnodd ymgynghoriad â rhieni a gofalwyr sylw at gefnogaeth gref i wasanaeth chwarae'r awdurdod lleol, gyda llawer yn canmol ansawdd ac effaith y lleoliadau chwarae wedi'u staffio. Mewn ymateb, bydd y gwasanaeth yn parhau i gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae am ddim trwy gydol y flwyddyn.

Cais cyffredin oedd un i ymestyn oriau dyddiol Gwersylloedd Bwyd a Hwyl yr haf i gefnogi'n well rhieni sy'n gweithio. Er nad yw'r gwersylloedd hyn wedi'u cynllunio fel gofal plant, bydd y cyngor yn darparu rhestr gynhwysfawr o ddarparwyr gofal plant cofleidiol yn ystod y broses archebu i gynorthwyo teuluoedd. Galwodd rhai rhieni hefyd am ddosbarthiad mwy teg o leoliadau gwersylloedd. Er bod meini prawf cyllido a chyfyngiadau ymarferol ar opsiynau lleoliadau, bydd Torfaen yn darparu 17 gwersyll Bwyd a Hwyl yn 2025 - mwy nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru.

Mynegodd rhieni'r angen am gyfleoedd chwarae mwy cynhwysol i blant ag anableddau. Mewn ymateb, bydd y gwasanaeth chwarae yn parhau i gefnogi trwy sesiynau wythnosol a gwyliau, yn ogystal â darpariaethau cymorth gan bartneriaid a darparwyr arbenigol. Bydd cyflwyno ystafelloedd synhwyrdd newydd mewn lleoliadau cymunedol hefyd yn cynyddu cyfleoedd i blant ag anableddau. Bydd pob gwelliant newydd i barciau'n cynnwys offer cynhwysol.

Cais i wella mynediad at wybodaeth, mae'r holl fanylion gwasanaeth chwarae bellach wedi'u cydgrynhoi ar adran gwefan CBST ar gyfer y Gwasanaeth Chwarae a llwyfan CYSYLLTU Torfaen.

3.4. Crynodeb o Ganfyddiadau Allweddol gan Rieni/Gofalwyr am Gyfleoedd Hamdden, Ieuencid a Difyrrwch i Blant a Phobl Ifanc a'r Ymateb/Camau a Gymerwyd (628 o ymatebion).

Tynnodd adborth gan rieni, gofalwyr a theuluoedd sylw at angen cryf am well cyfathrebu a mynediad at wybodaeth am gyfleoedd y tu allan i'r ysgol i blant a phobl ifanc. Mewn ymateb, mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda phartneriaid i ganoli gwybodaeth ar blatfform CYSYLLTU Cynghrair Gwirfoddol Torfaen, gan ei gwneud hi'n haws i deuluoedd ddod o hyd i weithgareddau perthnasol. Cwblhawyd archwiliad o ddarparwyr chwarae a hamdden hefyd i gefnogi'r ymdrech hon, ac mae partneriaid yn cael eu hannog i rannu'r diweddariadau yn uniongyrchol gydag ysgolion.

Mynegwyd yr angen am gaeau chwaraeon 3G a 4G mwy hygrych yn aml, a bydd datblygiad cyfleusterau newydd yn Ysgol Abersychan, Ysgol Gymraeg Gwynllyw, ac Ysgol Gynradd Gymunedol Llantarnam fel ymateb i hyn. Er mwyn mynd i'r afael â phryderon am faw cŵn mewn ardaloedd hamdden, mae ymgyrch "Codwch E" y cyngor yn parhau i weithio gyda grwpiau lleol i hyrwyddo perchnogaeth cyfrifol anifeiliaid anwes.

Galwodd rhieni hefyd am fwy o ddarpariaethau wedi'u staffio ar gyfer pobl ifanc 12 oed a hŷn. Mewn ymateb, bydd archwiliad o ddarparwyr ieuenctid yn cael ei gyhoeddi, ac mae strategaeth gwaith ieuenctid aml-asiantaeth pum mlynedd o hyd ar y gweill, gan gynnwys creu dau glwb ieuenctid newydd a darpariaeth allgymorth erbyn diwedd 2025.

Yn olaf, mynegodd teuluoedd bwysigrwydd cadw gweithgareddau'n fforddiadwy. Mae'r awdurdod lleol wedi ailddatgan ei ymrwymiad i ddarparu'r holl wasanaethau ieuenctid a chwarae wedi'u staffio yn rhad ac am ddim, gyda llawer o sefydliadau partner hefyd yn cynnig mynediad am ddim.




4. Crynodeb o Ganfyddiadau'r Asesiad

4.1 Tirwedd a Phoblogaeth

Mae Torfaen yn fwrdeistref sirol sy'n gymysgedd o ardaloedd trefol a lled-wledig yn ne-ddwyrain Cymru. Mae'r fwrdeistref yn ymfalchïo mewn tirwedd amrywiol o ganolfannau trefol, dyffrynnoedd, a mannau gwyrdd bras. Mae ei amgylchedd naturiol yn cynnwys parciau, coetiroedd, caeau a gerddi sy'n cefnogi hamdden, bioamrywiaeth, a lles cymunedol.

Mae'r fwrdeistref hefyd yn cynnwys 4 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, 7 Gwarchodfa Natur Leol, a dros 150 o Safleoedd Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur. Mae tir amaethyddol, caeau chwarae, a mannau agored anffurfiol yn gwella cyfleoedd ar gyfer chwarae awyr agored a datblygiad cynaliadwy ymhellach.

- 
- Mae tua 93,000 o drigolion, gyda thua 18,000 o blant a phobl ifanc 0–18 oed.
 - Mae'r mwyafrif o blant yn uniaethu fel Prydeinwyr Gwyn, gyda nifer gynyddol o gefndiroedd cymysg a lleiafrifoedd ethnig.
 - Amcangyfrifir bod tua 31% o blant yn Nhorfaen yn byw mewn tlodi.
 - Mae gan oddeutu 12% o ddisgyblion ysgol ADY.
 - Yr Iaith Gymraeg: Er nad yw mor uchel ag mewn siroedd mwy gwledig, mae cyfran sylweddol o blant yn Nhorfaen yn dysgu neu'n defnyddio'r Gymraeg.

4.2 Darpariaethau Chwarae wedi eu Staffio

Nododd archwiliad diweddar wyth darparwr chwarae mynediad agored yn Nhorfaen ar gyfer plant 5 oed a hŷn, gan gynnwys grwpiau sy'n seiliedig ar ffydd, sefydliadau trydydd sector, a thîm chwarae'r awdurdod lleol. Mae gwasanaeth chwarae'r cyngor yn cynnig dros 50 o sesiynau chwarae cymunedol wythnosol ac ystod eang o weithgareddau gwyliau sy'n ymgysylltu â dros 3000 o blant bob blwyddyn.

Darperir cymorth chwarae arbenigol i dros 200 o blant bob blwyddyn trwy Fodel Chwarae a Chynhwysiant y cyngor, sy'n cynnwys y rheiny ag anableddau, anghenion ymddygiadol, a chefnidiroedd bregus.

Mae cyfleoedd chwarae ychwanegol ar gael i blant dan 5 oed trwy dimau blynyddoedd cynnar, y trydydd sector, a darparwyr preifat. Mae chwarae cyfrwng Cymraeg hefyd

yn cael ei gefnogi'n eang ar draws pob grŵp oedran drwy bartneriaethau gyda sefydliadau fel Menter Iaith, yr Urdd, a Chylch Meithrin.



Tynnodd archwiliad diweddar o'r ddarpariaeth chwarae cymunedol wedi'i staffio sylw at y canlynol i plant 5 oed a hŷn a ddarperir gan wasanaeth chwarae'r awdurdod lleol:

Clybiau Chwarae Cymunedol	14 sesiwn yr wythnos	560 sesiwn y flwyddyn
Sesiynau Chwarae a Seibiant Wythnosol	13 sesiwn yr wythnos mewn 5 lleoliad gwahanol	520 sesiwn y flwyddyn
Sesiynau Chwarae i'r Teulu	8 sesiwn yr wythnos + 1 ychwanegol y mis i Dad a Fi	372 sesiwn y flwyddyn
Sesiynau Galw Heibio a Chwarae ar Benwythnos	5 sesiwn yr wythnos	420 sesiwn y flwyddyn
Gwersylloedd Chwarae, Bwyd a Lles Hanner Tymor	18 sesiwn yr wythnos mewn 6 ysgol wahanol	90 sesiwn y flwyddyn
Gwersylloedd Chwarae a Gweithgareddau Hanner Tymor	3 sesiwn yr wythnos	15 sesiwn y flwyddyn
Cynlluniau Chwarae Mynediad Agored yr Haf	35 sesiwn yr wythnos mewn 7 lleoliad gwahanol	133 sesiwn y flwyddyn
Gwersylloedd bwyd a hwyl yr haf	85 sesiwn yr wythnos mewn 17 lleoliad gwahanol	340 sesiwn y flwyddyn
Gwersylloedd Chwarae a Gweithgareddau'r Haf	5 sesiwn yr wythnos	95 sesiwn y flwyddyn
Sesiynau Chwarae a Seibiant Dyddiol yr Haf	40 sesiwn yr wythnos mewn 8 lleoliad gwahanol	152 sesiwn y flwyddyn

4.3 Archwiliad o Ddarparwyr Chwarae a Hamdden.

Nododd yr asesiad amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a hamdden hygyrch, wedi'u staffio, yn Nhorfaen sydd wedi'u gwella'n sylweddol trwy gydweithio rhwng yr awdurdod lleol, sefydliadau'r trydydd sector, a'r sector preifat.

Mae amrywiaeth eang o bartneriaid yn cyfrannu at yr asesiad digonolrwydd chwarae, ac mae llawer ohonynt yn allweddol yn y broses cynllunio gweithredu digonolrwydd chwarae.

Nododd archwiliad diweddar (Mawrth 2025) o ddarparwyr chwarae a hamdden yn Nhorfaen dros 100 o wahanol ddarparwyr gweithredol: -

Darpariaethau Chwarae wedi'u Staffio i blant dros 5 oed	8 darparwr
Darpariaeth / Grwpiau Chwarae Blynyddoedd Cynnar	21 darparwr
Clybiau leuenctid/ Prosiectau leuenctid	12 darparwr
Darparwyr Chwarae, Chwaraeon leuenctid a Hamdden Arbenigol	12 darparwr
Darpariaethau diwylliannol (Dawns, Drama, Cyfrwng Cymraeg, Grwpiau mewn gwisg ac ati)	19 darparwr
Clybiau a Darpariaethau Chwaraeon	37 darparwr

4.4 Chwarae mewn Ysgolion



Er mwyn parhau i sicrhau bod chwarae yn parhau i fod yn rhan annatod o'r diwrnod ysgol, mae prosiectau sy'n gysylltiedig â chwarae'n cael eu cyflwyno'n wythnosol i 25 ysgol. Mae llawer o leoliadau ysgol yn agor eu tiroedd i ganiatáu i chwarae cymunedol

a gweithgareddau hamdden gael eu cynnal y tu allan i oriau ysgol. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o chwarae ar gael yn rhad ac am ddim i holl staff yr ysgol trwy dîm chwarae'r awdurdod lleol.

Mae'r sesiynau chwarae canlynol yn cael eu cyflwyno i ysgolion yn wythnosol gan wasanaeth chwarae'r awdurdod lleol.

Sesiynau chwarae cyw cynnar	5 ysgol yr wythnos	25 sesiwn yr wythnos
Sesiynau chwarae a lles	10 ysgol yr wythnos	24 sesiwn yr wythnos
Cymorth chwarae cynhwysol	6 ysgol yr wythnos	43 sesiwn yr wythnos
Sesiynau Chwarae a Thorri i Ffwrdd	19 o bobl ifanc yr wythnos	46 sesiwn yr wythnos
<i>"Chwarae ar y maes chwarae"</i>	12 ysgol yr wythnos	30 sesiwn yr wythnos
Sesiynau chwarae a chofleidiol	4 ysgol yr wythnos	19 sesiwn yr wythnos
Clybiau ar ôl ysgol	5 ysgol yr wythnos	6 sesiwn yr wythnos

4.5 Parciau, Ardaloedd Chwarae a Mannau Agored Lle Mae Plant yn Chwarae

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gyfrifol am gynnal a chadw'r rhan fwyaf o ardaloedd chwarae cyhoeddus, parciau a meysydd chwarae yn y fwrdeistref, gan gynnwys diogelwch offer, diogelwch safle a chynnal a chadw tiroedd. Mae swyddogion y cyngor yn cynnal archwiliadau gweledol wythnosol, gyda gwiriadau misol mwy manwl.

Yn ogystal, mae Tai Cymunedol Bron Afon yn rheoli 10 ardal chwarae, yn bennaf ar hen ystadau tai cyngor. Mae meysydd chwarae eraill yn cael eu goruchwyllo gan Gartrefi Melin, cynghorau cymuned lleol, a chymdeithasau trigolion. Yn gynyddol, mae datblygiadau tai newydd yn defnyddio cwmnïau rheoli preifat i gynnal ardaloedd chwarae a mannau agored.

Mae amrywiaeth eang o welliannau wedi'u gwneud, neu ar y gweill i'w cyflwyno, i wella mannau chwarae awyr agored ledled y fwrdeistref, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael digon o gyfleoedd i chwarae mewn amgylcheddau diogel, hygyrch cynhwysol.

Mae Soltys Brewster wedi cael eu comisiynu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i gynhyrchu Cynllun Rheoli 20 mlynedd ar gyfer nifer o fannau gwyrdd ledled yr Awdurdod fel rhan o Gynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Bydd y cynlluniau rheoli'n cael eu defnyddio i oleuo'r Awdurdod Lleol, Grwpiau Cymunedol Lleol a phartïon eraill â diddordeb am reolaeth a gwelliant pob un o'r parciau yn y dyfodol

4.6 Traffig a Thrafnidiaeth – Llwybrau Mwy Diogel i Chwarae

Mae Cyngor Torfaen wedi lansio cynllun arloesol i hyrwyddo teithio llesol ymhlith plant a phobl ifanc drwy integreiddio chwarae â thrafnidiaeth gynaliadwy. Mae'r dull unigryw hwn yn cynnwys sesiynau sgwteri a beiciau yn y gymuned, lle mae gweithwyr chwarae yn gweithredu fel hwyluswyr, gan helpu plant a phobl ifanc i feithrin hyder wrth ddefnyddio opsiynau teithio llesol yn ddiogel.

Mae'r cynllun hwn yn rhan o Gynllun Teithio Llesol a Chynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae'r cyngor, gyda'r nod o annog teithiau teithio llesol o amgylch y gymuned, gan gynnwys defnyddio'r llwybrau teithio llesol i gael mynediad at ddarpariaeth chwarae. Y nod yw creu diwylliant o deithio llesol sy'n hwyl ac yn addysgiadol, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu symud ar draws eu cymunedau'n ddiogel ac yn annibynnol.

Wedi'i ariannu trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, derbyniodd gweithwyr chwarae hyfforddiant i ddarparu sesiynau Scoot FIT mewn lleoliadau chwarae cymunedol, ynghyd â sgwteri ac offer diogelwch i blant eu defnyddio. Derbyniodd gweithwyr chwarae hyfforddiant cynnal a chadw beiciau ynghyd â hyfforddiant sgiliau beicio a diogelwch ar y ffyrdd. Prynwyd fflyd o sgwteri i blant a gweithwyr chwarae eu defnyddio, sy'n cael eu cludo gan y tîm chwarae i leoliadau chwarae ac i ysgolion er mwyn cyflwyno'r sesiynau hwyliog, rhyngweithiol ac addysgiadol.



4.7 Y Gweithlu Chwarae

Mae gweithlu chwarae Torfaen yn cynnwys tri grŵp allweddol. Mae'r Tîm Datblygu Chwarae craidd, sydd yn adran addysg yr awdurdod lleol, yn cynnwys 19 o staff llawn amser sy'n cyflenwi prosiectau chwarae yn ystod y tymor a'r gwyliau, gan gynnwys cymorth wedi'i dargedu i grwpiau sy'n agored i niwed ac ysgolion. Yn ystod gwyliau'r ysgol, mae'r tîm hwn yn cael ei gefnogi gan weithlu sesiynol mawr o 421 o staff cyflogedig a gwirfoddolwyr, sy'n golygu mai hwn yw'r gweithlu chwarae mynediad agored mwyaf yng Nghymru. Yn ogystal, mae tua 75 o weithwyr chwarae yn gweithredu mewn 10 lleoliad gofal plant mynediad caeedig, fel clybiau ar ôl ysgol, sy'n cael eu rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Data'r Gweithlu Chwarae (casglwyd ym mis Rhagfyr 2024)

Tîm Chwarae Craidd	19
Gweithwyr Sesiynol (Goruchwylwyr Safle, Gweithwyr Chwarae, Gweithwyr Cymorth)	228
Gwirfoddolwyr Chwarae Sesiynol	201
Gweithwyr chwarae mewn lleoliadau gofal plant mynediad caeedig	75
Cyfanswm Nifer y Gweithwyr Chwarae	523

Cyflawnir cymwysterau ar gyfer gweithwyr chwarae sy'n gweithio mewn lleoliadau mynediad agored drwy weithio mewn partneriaeth ag ACT a Chlybiau Plant Cymru. Mae hyn yn cynnwys lefelau 1, 2 a 3 mewn gwaith chwarae.

Mae dadansoddiad cynhwysfawr o anghenion hyfforddi wedi'i gynnal i asesu a chefnogi datblygiad y gweithlu chwarae, gan sicrhau bod amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygiad ar gael. Cynigir datblygiad proffesiynol parhaus i amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys sesiynau ymwybyddiaeth i'r rhai y mae eu penderfyniadau'n effeithio ar gyfleoedd chwarae.



4.8 Gwybodaeth ac Ymgysylltiad â'r Gymuned

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn hyrwyddo chwarae cynhwysol trwy weithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid a darparu gwybodaeth hygrych trwy ei wefan, gan gynnwys manylion am ardaloedd chwarae a gwasanaethau lleol. Gall teuluoedd hefyd gael arweiniad drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Mae Gwasanaeth Chwarae'r cyngor yn cefnogi ac yn hyrwyddo digwyddiadau cymunedol fel Digwyddiad Mawr Cwmbrân a Pharti Pont-y-pŵl yn y Parc, tra hefyd yn cynnig adnoddau fel llyfrgell fenthyca chwarae i helpu rhieni i annog chwarae gartref. Trwy ymgysylltiad cryf yn y cyfryngau cymdeithasol a chydweithrediad â'r cyfryngau lleol, mae'r cyngor yn hyrwyddo delweddau cadarnhaol o chwarae ac yn meithrin ymrwymiad cymunedol i wella cyfleoedd chwarae.



5. Gwneud y Mwyaf o Adnoddau

5.1 Darpariaethau Chwarae wedi eu Staffio

Mae gwasanaeth chwarae'r awdurdod lleol yn gweithio'n greadigol ac mewn ffordd gyfannol i sicrhau cyllid sy'n cefnogi ac yn gwella hawl plant i chwarae. Trwy adeiladu perthnasoedd cryf, cydweithredol â chynghorau cymuned, ysgolion, a phartneriaid lleol, rydym wedi gallu manteisio ar ffrydiau arian ac adnoddau amrywiol i gynnig darpariaethau a chyfleoedd chwarae wedi'u staffio.

Mae'r dull hwn nid yn unig yn cynnal y ddarpariaeth bresennol ond mae hefyd yn ehangu ystod a chyrhaeddiad y cyfleoedd chwarae sydd ar gael. Trwy nodau a rennir a dealltwriaeth ddofn o anghenion lleol, rydym wedi creu amgylcheddau chwarae cynhwysol, gafaelgar sy'n adlewyrchu lleisiau'r gymuned ac yn darparu buddion parhaol i blant a theuluoedd fel ei gilydd.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi manylion y ffrydiau cyllido ar gyfer darpariaeth chwarae wedi'i staffio a ddarparwyd gan wasanaeth chwarae'r awdurdod lleol yn 2024/2025

Bwyd a Hwyl (CLILC) 45%	ADDYSG (YSGOLION) 18%	Teuluoedd yn Gyntaf (Llywodraeth Cymru) 9%
Cyngor Tref a Chymuned 8%	CBST (Craidd) 7%	Grant Gofal Plant a Chwarae (Llywodraeth Cymru) 2%
Cronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG) 8%	Gwaith Chwarae Gwyliau (Llywodraeth Cymru) 2%	Grantiau a chynlluniau bach 1%

4.4 Cyllid Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â Darpariaeth Chwarae wedi'i Staffio

Yn gyffredinol, mae'r cyllid a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru a nodir uchod yn cyfrannu tuag at amrywiaeth o wahanol brosiectau a chynlluniau chwarae i'w cyflawni. Mae hyn yn cynnwys cyfraniad i'r canlynol: -

- Gwersylloedd Bwyd a Hwyl
- Chwarae Cynhwysol – Cymorth Anabledd
- Sesiynau Chwarae i'r Teulu
- Gwersylloedd Chwarae Hanner Tymor
- Lego - Adeiladu i Fynegi
- Dad a Fi
- Prosiect Gwirfoddolwyr Ieuenctid
- Sesiynau Cofleidio a Chwarae
- Digwyddiadau Chwarae Cymunedol
- Cynlluniau Chwarae Mynediad Agored yr Haf

4.5 Cyllid ar gyfer Mannau Chwarae Awyr Agored i Blant a Phobl Ifanc

Mewn perthynas â pharciau a mannau agored, mae adnewyddiadau a'r datblygiadau diweddar wedi cael eu hariannu trwy'r canlynol: -

- Y Gronfa Ffyniant Gyffredin
- Cyllid adran 106
- Cyngorau Tref a Chymuned
- Cydweithrediad Cwrt Chwaraeon Cymru

Yn ogystal â hyn, fel rhan o'r broses Asesu Digonolrwydd Chwarae, mae Cyngor Torfaen wedi cael arian gan Lywodraeth Cymru i wella profiadau chwarae awyr agored i blant a phobl ifanc. Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad ar gyfer yr asesiad digonolrwydd chwarae yn siapio'n fawr y cynlluniau ar gyfer dyrannu cyllid.

5 Monitro'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae a'r Cynllun Gweithredu

5.1 Cyfrifoldeb Strategol am Chwarae

O fewn Torfaen, mae'r cyfrifoldeb strategol am chwarae fel a ganlyn: -

Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	Jason O'Brien
Aelod Gweithredol dros Blant, Teuluoedd ac Addysg	Y Cyng. Richard Clark

5.2 Llywodraethu Allweddol

Mae'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae yn ddyletswydd statudol o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac mae ganddo sawl cysylltiad â strwythurau llywodraethu cyhoeddus allweddol fel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau), Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh), a'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Mae'r asesiad yn gweithredu fel sylfaen dystiolaeth ar draws sectorau, gan gefnogi cynllunio integredig a darparu gwasanaethau i hyrwyddo lles plant trwy chwarae.

Mae'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae hefyd yn offeryn allweddol ar gyfer cyflawni nodau tegwch iechyd a chyfiawnder cymdeithasol ehangach ac egwyddorion ehangach y cyngor. Mae egwyddorion Marmot yn cyd-fynd yn agos â nodau Asesiad Digonolrwydd Chwarae

Mae'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae yn cefnogi naw Amcan Llesiant Cyngor Torfaen trwy wella canlyniadau addysgol trwy ddysgu sy'n seiliedig ar chwarae a hyfforddi'r gweithlu, meithrin gwytnwch teuluol a chymunedol, a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb trwy dargedu bylchau mewn darpariaeth. Mae'n hyrwyddo cysylltiad cymdeithasol trwy fannau chwarae cynhwysol, yn annog stiwardiaeth amgylcheddol trwy chwarae awyr agored ac mewn natur, ac yn cyfrannu at economïau lleol trwy greu swyddi a mentrau cymunedol. Mae'r asesiad hefyd yn cefnogi ffyrdd iachach o fyw, yn dathlu diwylliant a threftadaeth leol, ac yn sicrhau bod gwasanaethau yn ymatebol ac yn canolbwyntio ar bobl trwy ymgynghoriad cymunedol helaeth.

5.3 Y Grŵp Cynllunio Gweithredu Digonolrwydd Chwarae

Datblygodd y grŵp hwn fel rhan o asesiad 2012/13. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter i roi adborth ar Gynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae Torfaen a'i fonitro. Mae mynychu da ar grŵp ac mae cynrychiolaeth gan ystod eang o bartneriaid awdurdod lleol a 3^{ydd} sector a gyfrannodd yn unigol at yr asesiad.

Yn ogystal ag asesu a monitro'r Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae, mae'r grŵp yn cael ei ddefnyddio fel cyfrwng i drafod unrhyw gyfleoedd ariannu sy'n gysylltiedig â chwarae a darpariaeth chwarae, yn ogystal ag unrhyw bolisïau a chynlluniau newydd. Un o fanteision grŵp mor eang yw lefel yr arbenigedd, gwybodaeth a phrofiad.

Yn ogystal â hyn, mae dealltwriaeth glir o sut mae meysydd gwasanaeth unigol, waeth pa mor amrywiol ydynt, yn gysylltiedig â chwarae a darpariaeth chwarae. Mae presenoldeb da ym mhob cyfarfod ac os nad yw aelodau ar gael i fynychu yna anfonir cynrychiolydd o'r un meysydd.

6. Casgliad

Mae'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae yn tanlinellu ymrwymiad diwyro'r cyngor a'i bartneriaid i wella cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc.

Mae'r asesiad hwn wedi gwerthuso'n fanwl gwahanol agweddau ar chwarae, gan nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at y cynnydd sylweddol a wnaed wrth ddarparu cyfleoedd chwarae amrywiol, cynhwysol a hygrych, gan amlinellu hefyd yr heriau sy'n parhau.

7. Dadansoddiad SWOT Thematig

ADRAN A – THEMA: POBLOGAETH

(Materion A, B, E)

Ymgynghoriad Plant a Phobl Ifanc

Canfyddiadau Allweddol – Plant (dan 12 oed)

- Cyfanswm yr ymatebion: 1,196 (52% bechgyn, 48% merched).
- Lleoliadau chwarae y maen nhw'n chwarae yno fwyaf: Cartref 40%, Parciau 38%, Tai Ffrindiau 9%.
- Hoff weithgareddau chwarae: Chwaraeon/gemau tîm 40%, Dyfeisiau electronig 17%, Celf a Chrefft 11%.
- Diogelwch: 62% yn teimlo'n ddiogel yn chwarae y tu allan, 18% yn ansicr, 10% yn teimlo'n anniogel.

Canfyddiadau Allweddol – Pobl Ifanc (12–25)

- Cyfanswm yr ymatebion: 432.
- Ystod oedran: 12 (86), 13 (41), 14 (78), 15 (82), 16–17 (67), 18–25 (64).

- Cymdeithasu yn yr awyr agored: Y rhan fwyaf o ddyddiau (182), unwaith neu ddwy yr wythnos (153), braidd byth (69), byth (24).
- Rhwystrau i gymdeithasu: Cost, trafnidiaeth, diffyg cyfleoedd lleol, pryder cymdeithasol, gofidion o ran diogelwch.
- Gofidion am yr awyr agored: Traffig (208), dieithriaid (132), bwlis (132), pobl ifanc eraill (28), cŵn (45).

Cryfderau

- Dealltwriaeth gref o anghenion y boblogaeth trwy ddefnyddio data'r cyfrifiad, mynegeion anabledd, ac ymgynghori â 2,328 o ymatebwyr, gan sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Darpariaeth gynhwysol, helaeth ar gyfer plant ag anableddau, ADY, gofawyr ifanc, plant sydd â phrofiad o ofal, a'r rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.
- Ymrwymiad i ymgynghori'n rheolaidd â rhieni/gofawyr am chwarae cynhwysol a chyfarfodydd amlasiantaeth wythnosol ar gyfer pecynnau cymorth 1:1.
- Mae holl ddarpariaethau'r awdurdod lleol o ran chwarae ac ar gyfer ieuenctid, yn rhad ac am ddim, sy'n dileu rhwystrau ariannol i deuluoedd ar incwm isel.
- Sefydlwyd model chwarae cynhwysol sy'n cefnogi dros 200 o blant anabl bob blwyddyn trwy gynllunio amlasiantaeth a phecynnau cymorth pwrpasol.
- Pecynnau adnoddau chwarae awyr agored i blant mewn llety dros dro.
- Cyfleoedd chwarae cyfrwng Cymraeg yn cynyddu, gyda phartneriaethau cryf gyda Menter Iaith a'r Urdd.
- Cerbydau chwarae symudol yn galluogi allgymorth i ardaloedd gwledig ynysig.
- Ymgysylltiad cryf â theuluoedd, gan gynnwys ystafelloedd synhwyrdd, llyfrgell fenthyc, a sesiynau chwarae i'r teulu.

Gwendidau

- Heriau o ran recriwtio a chadw staff cyfrwng Cymraeg ar draws y blynyddoedd cynnar a'r sector chwarae.
- Mae ardaloedd gwledig cyfyngedig yn parhau i wynebu heriau o ran mynediad, sy'n gofyn am ddarpariaeth fwy symudol neu hyblyg.
- Mae rhai adeiladau cymunedol yn codi ffioedd llogi, gan gyfyngu ar ddarpariaeth cost isel mewn rhai ardaloedd.

Cyfleoedd

- Gallai cyllid cyfalaf gefnogi cerbydau chwarae symudol, gwasanaethau allgymorth yng nghefn gwlad a gwella ardaloedd chwarae a chyfleusterau statig i annog chwarae yn yr awyr agored.
- Galw cynyddol am adnoddau chwarae ar benwythnos ac yn y cartref (e.e., ehangu'r llyfrgell deganau).
- Cryfhau llwybrau gweithlu cyfrwng Cymraeg drwy dargedu'r recriwtio.

- Gwell rhannu data ar draws partneriaid i fireinio'r ddarpariaeth a dargedir ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed.
- Darpariaeth benodol ar gyfer plant a phobl ifanc LGBT

Bygythiadau

- Mae gostyngiadau yn y ffrydiau cyllido allanol bob amser yn peri risg i ddyfodol cyfleoedd chwarae
- Gall cynnydd yn yr anghenion cymhleth ymhlith plant (ADY, iechyd meddwl, trawma) fod yn fwy o lawer na capasiti'r gweithlu.
- Gall pwysau costau byw gynyddu dibyniaeth ar ddarpariaeth am ddim y tu hwnt i'r capasiti presennol.
- Gall heneiddio demograffig symud blaenoriaethau gwleidyddol ac ariannol i ffwrdd o wasanaethau plant.

ADRAN B – THEMA: LLEOEDD LLE MAE PLANT YN CHWARAE

(Materion C, F, I)

Canfyddiadau Allweddol – Plant (dan 12)

- Parciau a ddefnyddir fwyaf: Llyn Cychod Cwmbrân (crybwyllwyd 329 gwaith), Parc Pont-y-pŵl (193).
- Gwelliannau y gofynnwyd amdanynt: Mwy o siglenni, sleidiau, fframiau dringo, trampolinau; mannau glanach, mwy diogel; parciau mwy gydag ardaloedd ar wahân ar gyfer grwpiau oedran; cyfleusterau chwaraeon.
- Gofidion wrth chwarae y tu allan: Dieithriaid (209), traffig (45), pobl ifanc hŷn (39).

Canfyddiadau Allweddol – Pobl Ifanc (12–25)

- Ble maen nhw'n cymdeithasu: Parciau (297), siopau (281), canolfannau ieuencid (112), arall (76).
- Canfyddiadau am barciau: Dywedodd 190 “da iawn”, 98 “ocê”, 90 “ddim yn dda iawn nac yn wael iawn”, 44 “ddim yn wych”, 36 “gwael iawn”.
- Pryderon: Parciau'n aml wedi'u teilwra i blant iau; fandaliaeth, sbwriel, ymddygiad gwrthgymdeithasol; diffyg cyfleusterau i bobl ifanc yn eu harddegau.
- Awgrymiadau: Mwy o offer i bobl ifanc hŷn, gwell cynnal a chadw, mesurau diogelwch, dylunio cynhwysol.

Cryfderau

- Mapio mannau chwarae yn sylweddol trwy GIS, Asesiad Mannau Agored, a phroffiliau ward.

• Buddsoddi'n sylweddol mewn parciau ac ardaloedd chwarae, gan gynnwys ardaloedd chwarae cynhwysol, Ardaloedd Chwarae Aml ddefnydd newydd, campfeydd awyr agored, a gwella hygyrchedd. • Partneriaethau Teithio Llesol cryf, sy'n cynnig mentrau ScootFit, cynnal a chadw beiciau, Kerbcraft, a llwybrau diogel. • Mae'r ymgynghoriad i blant yn llywio blaenoriaethau yn glir, yn enwedig ynghylch diogelwch, glendid a chwarae yn yr awyr agored. • Mae ysgolion yn agor eu tiroedd fwyfwy ar gyfer chwarae cymunedol, gan gynnwys caeau 3G/4G a Gwersylloedd Bwyd a Hwyl. • Dim arwyddion "Dim Gemau Pêl" ar dir yr awdurdod lleol, felly'n cefnogi chwarae cymunedol. • Rheoliadau meysydd chwarae di-fwg ar waith ar draws pob safle. • Hyfforddiant ymwybyddiaeth chwarae ar gyfer staff ysgol a goruchwylwyr amser cinio, i ymgorffori diwylliant o chwarae mewn ysgolion
Gwendidau • Mae cofnodion GIS yn cynnwys anghywirdebau, sy'n galw am ddiweddariadau parhaus. • Nodwyd diffygion sylweddol mewn chwarae statig a darpariaethau ieuenctid yn yr Asesiad Mannau Agored. • Gallu cyfyngedig i gwblhau asesiadau offer archwilio Chwarae Cymru oherwydd cyfyngiadau staffio. • Nid yw cau ffyrdd dros dro ar gyfer chwarae yn ymarferol, ac mae hyn yn cyfyngu ar fentrau chwarae stryd. • Mae rhai safleoedd tir llwyd yn anaddas ar gyfer chwarae, gan gyfyngu ar y gallu i ehangu mewn ardaloedd lle mae anghenion uchel.
Cyfleoedd • Gall £156,940 o gyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ymgynghoriad yn uniongyrchol (glendid, diogelwch, offer cynhwysol). • Mae cynlluniau 20 mlynedd i reoli mannau gwyrdd yn cynnig gwelliannau strategol hirdymor. • Gall gwella isffyrdd a llwybrau cerdded mewn ffordd artistig wella canfyddiadau ynghylch diogelwch, ac annog teithio llesol a llwybrau mwy diogel i chwarae. • Mentrau Lleodedd Glanach i Chwarae (Ymgyrch Codwch e!, casglu sbwriel, gwanwyn glân). • Ehangu prosiectau chwarae yn yr ysgol, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae darpariaeth gymunedol yn gyfyngedig. • Datblygu safonau dylunio cynhwysol ymhellach yn y CDLI Newydd.
Bygythiadau • Mae fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau i atal plant rhag chwarae yn yr awyr agored. • Mae pryderon ynglŷn â thraffig yn parhau i fod yn uchel, gyda 56% o blant yn dweud bod "dieithriaid" a 12% yn dweud bod traffig yn bryderon mawr. • Gall cyfyngiadau cyllid arafu cynnydd ar welliannau i Fap Rhwydwaith Teithio Llesol. • Materion amgylcheddol (sbwriel, baw cŵn) parhau er gwaethaf ymgyrchoedd.

- Gall effeithiau newid yn yr hinsawdd (tywydd eithafol) leihau cyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored.

ADRAN C – THEMA: DARPARIAETH DAN ORUCHWYLIAETH

(Materion D, G)

Canfyddiadau allweddol – Plant (dan 12)

- Clybiau a fynychir: Chwaraeon 557, Clybiau chwarae 498, Grwpiau mewn gwisg 66, Dawns/drama 45.
- Gweithgareddau a ddymunir: Mwy o gynlluniau chwarae, chwarae ar benwythnos, gymnasteg, pêl-droed, clybiau celf, clybiau codio/technoleg.
- Amser chwarae yn yr ysgol: Dywedodd 79% fod digon, dywedodd 19% nad oedd digon.
- Gweithwyr chwarae mewn ysgolion: 968 oes mae ganddyn nhw, 217 na, does ganddyn nhw ddim.

Canfyddiadau Allweddol – Pobl Ifanc (12–25)

- Clybiau/grwpiau: Chwaraeon 161, Diwylliant 38, Grwpiau ieuenctid 57, Grwpiau mewn gwisg 33, Dim 173.
- Rhwystrau: Cost, trafnidiaeth, gofidion cymdeithasol, diffyg opsiynau addas, cyfyngiadau amser, cyfleusterau gwael.
- Awgrymiadau: Mwy o chwaraeon (pêl-fasged, pêl-foli, pêl-droed merched), clybiau creadigol (celf, codio, dylunio), darpariaeth sy'n cynnwys ADY/anableddau, opsiynau fforddiadwy.

Cryfderau

- Cynnig chwarae helaeth dan oruchwyliaeth, gan gynnwys clybiau chwarae cymunedol, cynlluniau hanner tymor, Bwyd a Hwyl, prosiectau anabledd arbenigol, sesiynau chwarae dros dro ac un tro, Chwarae yn y Parc, Sesiynau Gwersylloedd Chwarae a Lles i'r teulu, a chwarae yn yr ysgol.
- Gweithlu mawr, amrywiol sy'n cynnwys 523 aelod o staff a gwirfoddolwyr, gyda chydbwysedd cryf rhwng y rhywiau a lefelau cymwysterau uchel.
- Rhaglen hyfforddi gadarn, gan gynnwys gwaith chwarae, diogelu, ADY, Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod, ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma.
- Gwasanaeth ieuenctid o ansawdd uchel, sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol gyda Gwaith Ieuenctid yn ennill Safon Aur
- Darpariaeth Chwarae Mynediad Caeddig sy'n cael ei ddarparu gan y Blynnyddoedd Cynnar – wedi'i reoleiddio i fodloni Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

• Marc Ansawdd a chanlyniadau cryf gan ESTYN o ran darpariaeth ieuenctid. • Llif gadarn o wirfoddolwyr yn y maes darpariaeth chwarae; 201 o wirfoddolwyr a llwybrau strwythuredig ar gyfer pobl ifanc. • Ymgorffori mesurau sicrhau ansawdd ar draws darpariaeth yr ALI mewn lleoliadau mynediad caeedig ac agored. • Darparu ystod eang o ddarpariaeth Chwaraeon, Celf a Diwylliant
Gwendidau • Darpariaeth ieuenctid gyfyngedig yn ne'r fwrdeistref, sy'n creu anghydraddoldeb daearyddol. • Dibyniaeth uchel ar weithlu chwarae tymhorol, sy'n golygu bod hyfforddiant a chadw staff yn y tymor hir yn heriol.
Cyfleoedd • Bydd strategaeth gwaith ieuenctid amlasiantaeth dros gyfnod o 5 mlynedd yn cryfhau'r cydlyn, ac yn ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid ehangach. • Mae dau glwb ieuenctid newydd a darpariaeth allgymorth wedi'u cynllunio ar gyfer 2025. • Mae potensial i ehangu llwybrau hyfforddi achrededig (Gwaith Chwarae Lefel 1–3, prentisiaethau). • Mae cyfle i wella gwaith ieuenctid digidol, gan ymateb i ddiddordebau pobl ifanc mewn hapchwarae, codio, a thueddiadau ar-lein. • Gall partneriaethau â darparwyr trydydd sector arallgyfeirio darpariaeth dan oruchwyliaeth • Llwybrau gwirfoddoli – Cynorthwyydd Chwarae (14–15 oed) a Gwirfoddolwr Chwarae (16+). • Datblygu'r gweithlu – goruchwyliaeth strwythuredig, rhoi'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi ar waith
Bygythiadau • Gallai gostyngiadau mewn cyllid effeithio ar lefelau staffio, cyllidebau hyfforddi, a chymorth arbenigol. • Cystadleuaeth ar gyfer staff cymwys ar draws y sectorau blynyddoedd cynnar, gwaith ieuenctid ac addysg.

ADRAN D – THEMA: SYNERGEDD POLISI, YMGYSYLLTU, EIRIOLAETH A GWYBODAETH

(Materion F, G, H, I)

Canfyddiadau Allweddol – Plant (dan 12)

- Gwelliannau cymunedol y gofynnwyd amdanynt: Mwy o barciau, offer gwell, amgylcheddau glanach, ffyrdd mwy diogel, mwy o glybiau/gweithgareddau, cynhwysiant o ran plant anabl, lleoedd i bobl ifanc yn eu harddegau.
- Canfyddiadau am oedolion: Mae 76% yn credu bod oedolion o'r farn bod chwarae yn bwysig, dywedodd 15% na.

Canfyddiadau Allweddol – Pobl Ifanc (12–25)

- Ffynonellau gwybodaeth: cyfryngau cymdeithasol, ffrindiau/teulu, ysgolion, poster/taflenni.
- Heriau: Diffyg ymwybyddiaeth, cyrhaeddiad cyfyngedig o ran hysbysebu, dibyniaeth ar ddarganfod 'goddefol'.
- Awgrymiadau: Gwell mesurau hyrwyddo mewn ysgolion, dulliau hysbysebu amrywiol, sianeli cyfathrebu cynhwysol.
- Sylwadau pellach: Galw am fwy o gaeau 3G, chwaraeon cynhwysol, clybiau creadigol, parciau diogel, gweithgareddau fforddiadwy, canol trefi bywiog.

Cryfderau

- Llywodraethu aml-asiantaeth cryf drwy'r Grŵp Cynllunio Gweithredu Digonolrwydd Chwarae.
- Aliniad clir â fframweithiau strategol allweddol, gan gynnwys y Cynllun Llesiant, CDLI, Egwyddorion Marmot, a Theuluoedd yn Gyntaf.
- Lefelau uchel o ymgysylltu â'r gymuned, gyda dros 2,300 o ymatebion i'r ymgynghoriad.
- Cafodd sianeli cyfathrebu eu datblygu'n dda, gan gynnwys gwefan, platfform CONNECT, cyfryngau cymdeithasol, a phartneriaethau cyfryngau lleol.
- Ymgyrchoedd hyrwyddo blynyddol, gan gynnwys fideos chwarae, gwobrau gwirfoddolwyr, a chydabod gweithlu'r haf.
- Cynnig hyfforddiant helaeth i weithwyr proffesiynol y mae eu penderfyniadau yn effeithio ar chwarae.
- Agweddau cadarnhaol y cyhoedd tuag at chwarae, wedi'u hatgyfnerthu drwy negeseuon ac amlygrwydd cyson.
- Lle pwrpasol ar wefan yr ALI ar gyfer hyrwyddo chwarae, recriwtio,
- Ymrwymadau ymgynghori – yn rheolaidd ac yn eang gyda phlant, teuluoedd, a'r cyhoedd.

Gwendidau

- Mae gwybodaeth yn parhau i fod yn dameidiog ar draws platfformau, gyda theuluoedd yn gofyn am hwb fwy canolog.
- Mae rhai partneriaid yn anghyson wrth rannu diweddariadau, gan gyfyngu ar ba mor gyflawn yw gwybodaeth gyhoeddus.
- Capasiti cyfyngedig ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned ar raddfa fawr y tu allan i ddigwyddiadau blynyddol ar raddfa fawr.

Cyfleoedd

- Gall platfform CONNECT ddod yn un cyfeiriadur awdurdodol ar gyfer yr holl gyfleoedd chwarae a hamdden.
- Ehangu hyfforddiant ymwybyddiaeth chwarae i aelodau etholedig, cynllunwyr, a grwpiau cymunedol.
- Mwy o ddefnydd o offer ymgysylltu digidol i gyrraedd teuluoedd a phobl ifanc.
- Cryfhau eiriolaeth dros chwarae wrth gynllunio ac adfywio, yn enwedig drwy'r CDLI newydd.

- Awydd cynyddol am fentrau chwarae rhwng cenedlaethau a dan arweiniad y gymuned.

Bygythiadau

- Gall newidiadau i bolisiau ar lefel genedlaethol effeithio ar gyllid neu ddisgwyliadau statudol.
- Gall cam wybodaeth gyhoeddus neu naratifau negyddol (e.e., ynghylch ymddygiad ieuenctid) danseilio agweddau cymunedol at chwarae.
- Gall gwaharddiad digidol gyfyngu ar fynediad at wybodaeth ar-lein i rai teuluoedd.
- Gall blaenoriaethau gwahanol bolisiau sy'n cystadlu (e.e., tai, gofal cymdeithasol) daflu cysgod dros chwarae mewn camau cynllunio strategol.

Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer 2025-26 wedi'i nodi isod.

Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae Torfaen 2025 – 2026

(Mae mesurau mewn coch yn newydd ar gyfer eleni)

Thema Adran A: Poblogaeth

<i>Poblogaeth</i>	Mae data sy'n gysylltiedig â'r boblogaeth yn cael ei gadw a'i ddiweddarau a'i ddefnyddio fel adnodd gweithredol ar gyfer Darparwyr Chwarae a Hamdden.
<i>Darparu ar gyfer Anghenion Amrywiol</i>	Darparu lleoliadau chwarae cynhwysol a herio unrhyw rwystrau sydd yna at gael mynediad at ddarpariaeth. Cefnogi partneriaid i ddarparu cyfleoedd chwarae a hamdden cynhwysol a sicrhau bod yr holl staff chwarae yn cael eu hyfforddi.

	Darparu cyfleoedd chwarae mewn ardaloedd gwledig ynysig gyda'r defnydd o gerbyd chwarae symudol pwrpasol.
	Cynnig darpariaeth chwarae a blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg. Gweithio'n agos gyda'r Fenter Iaith a'r Urdd i ddatblygu gweithlu Chwarae a Hamdden Cymraeg a sicrhau lleoliadau addas ar gyfer darpariaeth chwarae cyfrwng Cymraeg.
	Darparu rhaglen eang o ddarpariaeth chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc ag anableddau gan gynnwys: - Cynlluniau Chwarae, Clybiau Chwarae, Sesiynau Chwarae a Seibiant ar Benwythnosau, Darpariaeth Gofal Chwarae, Blynyddoedd Cynnar a Hamdden.
	Cydweithredu i rannu gwybodaeth, adnoddau, offer a hyfforddiant i sicrhau bod ymarfer cynhwysol o ansawdd yn cael ei ddarparu. Ymgynghori'n rheolaidd â rhieni/gofalwyr am chwarae cynhwysol. Cynnal fforymau aml-asiantaeth sy'n gysylltiedig â chwarae cynhwysol. Cymorth a hyfforddiant arbenigol wedi'i nodi trwy weithio gydag ysgolion, byrddau iechyd a phartneriaid i gynorthwyo'r broses gynhwysiant. Cyfarfodydd wythnosol i drafod pecynnau cymorth 1-1 newydd a chyfredol
	Darparu Llyfrgell Benthycu Chwarae fel adnodd gweithredol ar gyfer chwarae i deuluoedd, gweithwyr proffesiynol a'r gymuned ehangach.
	Darparu ystafelloedd chwarae synhwyaidd
	Gwneud cysylltiadau cryf â Chwarae trwy'r holl fecanweithiau adrodd sy'n gysylltiedig â'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant.
	Sicrhau bod offer chwarae sefydlog ar safle'r Teithwyr yn cael ei arolygu ac yn cael ei gynnal yn dda, yn unol â safonau
	Sicrhau bod gan y gweithlu chwarae a hamdden ddealltwriaeth dda o anghenion chwarae y rhai ag anghenion amrywiol (Anableddau, Plant sy'n Derbyn Gofal, Teithwyr Sipsiwn, Gofalwyr Ifanc, Gwahanol Ddiwylliannau, LHDTh ac ati).
	Darparu pecynnau adnoddau chwarae awyr agored i blant mewn llety dros dro
	Cynnig darpariaeth chwarae ac ieuencid i Ofalwyr Ifanc.
	Bod ag ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn at gynllunio darpariaeth chwarae, a sicrhau bod lles a datblygiad pob plentyn yn cael ei hyrwyddo. Gofynnir am farn plant yn aml yn unol â'r Egwyddorion Gwaith Chwarae.
	Darparu canolfan asesu i nodi lefelau cywir o gymorth chwarae. Hyrwyddo'r defnydd o'r ganolfan asesu gyda phartneriaid fel man chwarae i'r teulu.
	Sicrhau bod yr holl ddarpariaethau chwarae ac ieuencid wedi'u staffio a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn rhad ac am ddim.

Adran B - Thema: Lleoedd Lle Mae Plant yn Chwarae

Gofod Chwarae Awyr Agored	Parhau i sicrhau bod parciau ac ardaloedd chwarae yn cael eu cynnal yn unol â safonau
	Cefnogi'n ariannol nifer o atgyweiriadau, gwelliannau a chynhwysiant parciau ac ardaloedd chwarae trwy gyllid cyfalaf
	Datblygu adran mannau chwarae awyr agored ar wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
Llwybrau Diogel i Chwarae	Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo llwybrau diogel i chwarae trwy wella'r isffyrdd a'r llwybrau cerdded mewn ffordd artistig

	Gweithio yn unol ag arfer presennol CBST o ran Cynlluniau Traffig a Thrafnidiaeth
	Hyrwyddo cynlluniau teithio llesol, mae gweithwyr chwarae'n darparu Skootfit a chynnal a chadw beiciau.
Chwarae mewn Ysgolion	Cefnogi ysgolion i sicrhau bod chwarae'n parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol o fewn y diwrnod ysgol trwy ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth chwarae i oruchwylwyr amser cinio a staff addysgu
	Cynnig amrywiaeth o ddarpariaethau a phrosiectau chwarae mewn ysgolion
	Cefnogi ysgolion, lle bo hynny'n bosibl, i ddatblygu eu gofod chwarae awyr agored trwy gyllid cyfalaf
	Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion ynglŷn â chyfleoedd chwarae a hamdden y tu allan i oriau ysgol
Lleoedd Glanach i Chwarae	Gweithio mewn partneriaeth â chymunedau i annog ymgyrch <i>Codwch E</i> , casgliadau sbwriel a'r gwanwyn glân.

Adran C - Thema: Darpariaeth dan Oruchwyliaeth

Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored	Cynnig ystod eang o ddarpariaethau chwarae a hamdden o safon trwy gydol y flwyddyn i ddiwallu anghenion cymunedau. *Clybiau Chwarae Cymunedol *Cynlluniau Chwarae Hanner Tymor a'r Haf *Prosiectau Chwarae sy'n gysylltiedig ag Ysgolion *Sesiynau Chwarae i'r Teulu *Prosiectau Chwarae Arbenigol (Anableddau / Plant mewn Gofal / Cymdeithasol ac Emosiynol / Ymddygiadol / Lego ac ati) *Digwyddiadau Chwarae Cymunedol * Gwersylloedd Chwarae a Lles *Gwersylloedd Bwyd a Hwyl *Gwersylloedd Bwyd a Lles *Sesiynau Chwarae yn y Parc *Sesiynau Sbonc a Chwarae
	Darparu cymorth i bartneriaid y 3 ^{ydd} sector i gynnig darpariaeth chwarae i safon uchel
Sicrwydd Ansawdd	Sicrhau bod darpariaeth chwarae a gyflenwir gan yr awdurdod lleol yn cyrraedd safon uchel trwy gyfres o fesurau sy'n seiliedig ar yr SGC. Mae hyn yn cynnwys monitro a hyfforddi staff bob chwarter yn unol â mesurau sicrhau ansawdd
Darpariaeth Chwarae Mynediad Caeedig	Sicrhau bod yr holl ddarpariaeth chwarae gofrestredig a gyflenwir neu a gomisiynir gan yr awdurdod yn cael ei rheoleiddio i sicrhau bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael eu bodloni
Ieuencid, Chwaraeon, Celf, Diwylliant	Darparu ystod eang o ddarpariaeth chwaraeon, ieuencid, celf a diwylliannol trwy'r awdurdod lleol a phartneriaid y 3 ^{ydd} sector. Parhau i weithio mewn partneriaeth i gynyddu nifer ac ystod y ddarpariaeth a gynigir i bobl ifanc 12+ oed yn eu cymuned leol
Gwirfoddoli	Cyflwyno a hyrwyddo'r Prosiect Gwirfoddolwyr Chwarae ar gyfer pobl ifanc 16 oed a hŷn a'r Prosiect Cynorthwywyr Chwarae ar gyfer pobl ifanc 14 – 15 oed
Hyfforddiant	Sicrhau bod y gweithlu chwarae wedi'i gyfarparu i ddarparu ac wedi'i hyfforddi'n llawn. Pob gweithiwr a gwirfoddolwr i gwblhau cod ymddygiad

	trwy broses gyfarwyddo. Cedwir dadansoddiad anghenion hyfforddi ar gweithlu chwarae amser tymor a'r haf ar gyfer Darpariaethau Chwarae mynediad agored a Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar. Sesiynau ymwybyddiaeth chwarae i bartneriaid, gweithwyr proffesiynol, aelodau etholedig a Chynghorau Tref a Chymuned.
Datblygiad y Gweithlu	Parhau i weithio gyda phartneriaid i ddarparu Cymwysterau Gwaith Chwarae lefel 1,2 a 3. Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu lleoliadau sy'n seiliedig ar waith ar gyfer hyfforddeion a phrentisiaid chwarae . Parhau i sicrhau bod yr holl staff chwarae a blynyddoedd cynnar yn cael goruchwyliaeth rheolaidd yn y gwaith a bod eu hanghenion dysgu yn cael eu cefnogi.

Adran D- Thema: Synergedd Polisi, Ymgysylltiad, Eiriolaeth a Gwybodaeth

Gwybodaeth	Darparu ardal ddynodedig ar wefan yr awdurdod lleol i hyrwyddo manteision chwarae, darpariaeth chwarae, recriwtio, diogelu a diogelu chwarae, awgrymiadau defnyddiol i rieni/gofalwyr ac ati
	Gweithio ar y cyd â darparwyr awdurdodau lleol a'r 3 ^{ydd} sector i rannu a hyrwyddo gwybodaeth sy'n gysylltiedig â darpariaethau chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc ar blatfform CYSYLLTU
Diogelu a Dathlu Chwarae	Creu fideo blynyddol fel offeryn hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth o chwarae a darpariaeth chwarae
	Rhoi cydnabyddiaeth i'r holl wirfoddolwyr chwarae trwy ddarparu Seremoni Gwobrwyo Gwirfoddolwyr Blynyddol
	Rhoi cydnabyddiaeth i weithlu yr haf trwy gynnal Seremoni Wobrwyo Diwedd yr Haf
	Gweithio gyda'r cyfryngau lleol i hyrwyddo delweddau cadarnhaol o chwarae
Ymwybyddiaeth Chwarae	Cynyddu cyflenwad sesiynau ymwybyddiaeth chwarae i drigolion a gweithwyr proffesiynol
	Cefnogi digwyddiadau cymunedol i gynnwys chwarae. Hyrwyddo'r llyfrgell fenthyca fel adnodd ar gyfer digwyddiadau cymunedol
	Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo pwysigrwydd chwarae yn yr awyr agored i rieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach trwy weithdai ar-lein, sesiynau hyfforddi, cyfryngau cymdeithasol
	Ymgysylltu â'r gymuned ehangach trwy'r cyfryngau cymdeithasol, gan hyrwyddo adnoddau defnyddiol ac awgrymiadau gorau.
Ymgynghoriad	Ymgynghori'n rheolaidd ac yn eang â phlant, pobl ifanc, teuluoedd a'r cyhoedd ar faterion sy'n gysylltiedig â chwarae.